Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

National Assembly for Wales
Children, Young People and Education Committee

Eryl Owain
Cydgysylltydd Hanes Cymru
Drwy e-bost

12 Tachwedd 2018

Annwyl Eryl

Diolch am eich llythyr dyddiedig 29 Hydref ynglŷn â chynnwys hanes Cymru yn y cwricwlwm newydd.

Fel y gwyddoch, mae'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg wedi ymrwymo i fonitro cynnydd y gwaith o weithredu'r cwricwlwm newydd. Fel rhan o hyn, mae'r Pwyllgor wedi cyhoeddi ymgynghoriad yn ddiweddar i geisio barn y rhai dan sylw, a/neu sydd â diddordeb penodol yn y gwaith sy'n cael ei wneud i ddatblygu a dylunio'r cwricwlwm newydd. Mae rhagor o fanylion am sut i gyflwyno ymateb ar gael ar y **wefan.**

Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg wedi cytuno i fynychu cyfarfod Pwyllgor ddydd Iau 10 Ionawr 2019 i ddiweddaru'r Pwyllgor ar ei chynnydd ar ddiwygio'r cwricwlwm. Bydd hefyd yn gyfle i'r Aelodau fynegi unrhyw bryderon gan randdeiliaid. Bydd y cyfarfod hwn yn gyhoeddus a byddwch yn gallu gweld y sesiwn ar **Senedd TV.**

Efallai y byddwch hefyd yn ymwybodol bod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu wedi cynnal arolwg yn ddiweddar, gan ofyn i bobl bleidleisio ar y pwnc ar gyfer eu hymchwiliad nesaf. Cyhoeddwyd yn ddiweddar mai'r pwnc a enillodd oedd 'Addysgu hanes, diwylliant a threftadaeth Cymru'. Bydd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu yn lansio ymgynghoriad yn fuan mewn perthynas â'r ymchwiliad hwnnw a byddai'n falch iawn o gael cyflwyniad gennych chi. Mae'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn gobeithio y bydd canfyddiadau'r ymchwiliad hwnnw'n helpu i lywio ei waith ei hun ar ddiwygio'r cwricwlwm.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddPPIA@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddPPIA
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCYPE@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCYPE
0300 200 6565

Bydd copi o'r llythyr hwn yn cael ei rannu â'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu.

Yn gywir



Lynne Neagle AC
Cadeirydd